**Mick Antoniw AS/MS**

**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

02 Mehefin 2023

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Mai 2023 a oedd yn gofyn am atebion i gwestiynau ynglŷn â'r datblygiadau diweddaraf o ran Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio), yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU am ei dull newydd o ymdrin â chyfraith yr UE a ddargedwir (REUL) a'r dyddiad machlud ar ddiwedd 2023.

Gan fod y Bil yn mynd rhagddo ar gryn gyflymder yn Senedd y DU, mae'r ymatebion i'ch cwestiynau wedi'u hystyried ar wahân, yn hytrach nag mewn Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (LCM atodol). Gwnaed hynny er mwyn gallu cwblhau LCM atodol ynghylch newidiadau Llywodraeth y DU i'r Bil yn gyflym, a thrwy hynny roi cymaint o amser â phosibl i'r Senedd i'w ystyried. Mae'r ymatebion i'ch cwestiynau wedi'u nodi mewn Atodiad i'r llythyr hwn, er fy mod yn gobeithio y bydd y Pwyllgor wedi gweld yr LCM atodol yn ddefnyddiol o ran ateb llawer o'r rhain. Er mwyn rhoi'r cyd-destun cywir i'm sylwadau, hoffwn roi sylwadau cyffredinol am y Bil, sy'n adeiladu ar ddatganiadau cynharach i'r Pwyllgor.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd gwelliannau'r Llywodraeth, a fabwysiadwyd yn ddiweddar yn ystod cyfnod adrodd Tŷ'r Arglwyddi, yn dileu'r machlud awtomatig ar ddiwedd 2023 ac yn cyflwyno dull newydd a fydd yn rhestru, mewn Atodlen i'r Bil, yr offerynnau REUL sydd i'w diddymu erbyn y dyddiad terfynol, sef 31 Rhagfyr.  Er bod hyn yn welliant ar fersiwn flaenorol y Bil, mae pryderon o hyd ynglŷn ag ef, fel y nodwyd yn yr SLCM diweddar.

Y prif bryder yw y byddai'r Bil, fel y mae wedi'i ddrafftio, yn rhoi pwerau i Weinidogion y Goron i ddiwygio neu ddirymu REUL mewn meysydd datganoledig (gan gynnwys REUL a wnaed gan y Senedd) tan 23 Mehefin 2026 heb gydsyniad Gweinidogion Cymru na'r Senedd. Mae Gweinidogion Cymru wedi galw'n gyson ar Lywodraeth y DU i gynnwys gofyniad yn y Bil i Weinidogion y DU geisio cydsyniad cyn defnyddio pwerau cydredol.

Mae'r pryderon hyn yn parhau'n ddilys, a dyna pam yr wyf wedi parhau i argymell i'r Senedd ei bod yn gwrthod cydsynio i'r Bil.



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

**ATODIAD**

Gwelliant i gymal (1) o'r Bil sy'n dileu'r dyddiad machlud presennol, sef 31 Rhagfyr 2023, ar gyfer cyfraith yr UE a ddargedwir ac yn lle hynny yn darparu bod cyfraith yr UE a ddargedwir sydd i'w dirymu yn cael ei rhestru mewn Atodlen newydd

**Cwestiwn 1: Beth yw barn Llywodraeth Cymru am y dull newydd a gynigir gan Lywodraeth y DU?**

Fel y nodwyd yn yr LCM atodol a osodwyd ar 26 Mai, mae'r ffordd newydd o weithredu yn newid natur y Bil yn ei hanfod, ac yn dileu'r risg y bydd REUL yn diflannu heb unrhyw waith craffu gan ddeddfwrfeydd, a hyd yn oed yn anfwriadol.

Er bod y newid hwn yn y ffordd o weithredu i'w groesawu, mae pryderon ynghylch y sail resymegol gyffredinol am y Bil yn parhau. Mae cymalau sy'n dileu'r egwyddorion sefydledig a ddefnyddid i ddehongli REUL a chyfraith yr UE yn fwy cyffredinol hyd yma ("y darpariaethau dehongli") yn parhau yn y Bil. Mae pwerau yn y Bil i ddisodli neu i ddiweddaru REUL yn destun pryder o hyd, ac mae'r Bil yn cynnwys rhai darpariaethau o hyd y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn annerbyniol yn gyfansoddiadol, a hynny am eu bod yn rhoi pwerau cydredol i Weinidogion y Goron mewn meysydd datganoledig heb ofyniad ar wyneb y Bil i sicrhau cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn arfer y pwerau hynny. Cafodd y pryderon hyn eu codi ym mharagraffau 84, 88, 89 a 90 o'r LCM gwreiddiol dyddiedig 3 Tachwedd.

**Cwestiwn 2: A wnaeth Llywodraeth y DU ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar y dull newydd hwn cyn cyflwyno'r gwelliannau perthnasol ar gyfer y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi? Os felly, a gafodd unrhyw faterion a/neu bryderon a godwyd gan Lywodraeth Cymru eu hystyried gan Lywodraeth y DU?**

Er bod rhywfaint o ymgysylltu ar lefel swyddogion wedi bod cyn i welliannau Llywodraeth y DU gael eu cyflwyno, nid oedd yr ymgysylltu hwn yn ddigon ystyrlon nac yn ddigon manwl i Lywodraeth Cymru allu gwybod beth fyddai ffurf y gwelliannau hynny na pha offerynnau a fyddai'n cael eu cynnwys yn yr Atodlen newydd sy'n cynnwys rhestr o REUL i'w dirymu. Wrth i faterion ddatblygu, codwyd pryderon bod offerynnau mewn meysydd datganoledig wedi cael eu rhoi yn yr Atodlen heb gysyniad Gweinidogion Cymru o ganlyniad i gyflymder y ffordd newydd o weithredu.

**Cwestiwn 3: A yw'r rhestr o gyfraith yr UE a ddargedwir sydd i'w dirymu, fel y'i nodir yn y gwelliant ynghylch Atodlen newydd, yn cynnwys offerynnau mewn meysydd datganoledig?**

Cafodd Llywodraeth Cymru gyfle i weld y rhestr lawn ar yr un pryd â'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, ac felly rydym wrthi'n gweithio drwy'r manylion o hyd. Fodd bynnag, fel y gwelwch o'r LCM atodol (5) a osodwyd ar 26 Mai, mae'r Atodlen yn cynnwys deddfwriaeth mewn meysydd datganoledig.

**Cwestiwn 4: Beth yw barn Llywodraeth Cymru am y rhestr o gyfraith yr UE a ddargedwir a nodir yn y gwelliant ar Atodlen newydd?**

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio drwy bob un o'r offerynnau yn yr Atodlen ac mae wedi bod yn siarad â Llywodraeth y DU ynghylch yr offerynnau hynny sy'n fater pryder.

**Cwestiwn 5: I ba raddau y gwnaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gydweithio ar y rhestr o gyfraith yr UE a ddargedwir sydd yn y gwelliant ar Atodlen newydd?**

Nid oedd Llywodraeth y DU wedi gofyn i Lywodraeth Cymru gymryd rhan yn y gwaith o lunio'r rhestr o REUL yn yr Atodlen newydd.

**Cwestiwn 6: A oes gan Lywodraeth Cymru bryderon am unrhyw beth sydd wedi'i restru neu sydd heb ei restru yn y gwelliant ar Atodlen newydd?**

Gweler yr ymateb i Gwestiwn 4.

Gwelliant yn disodli isadrannau (3) a (4) o gymal 1 a rhoi yn eu lle pŵer newydd i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru a Gweinidogion y DU i eithrio cyfraith yr UE a ddargedwir a restrir yn yr Atodlen rhag cael ei dirymu (rheoliadau i fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol i gael eu gwneud erbyn 31 Hydref 2023)

**Cwestiwn 7: A wnaeth Llywodraeth y DU ymgynghori â Llywodraeth Cymru ynghylch y gwelliant hwn ac ynghylch rhoi'r pŵer hwn i Weinidogion Cymru?**

Nid ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru yn ystod y broses o lunio'r gwelliant hwn. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno sylwadau penderfynol ar lefel Gweinidogion ac ar lefel swyddogion er mwyn sicrhau bod pwerau yn y Bil ar gael i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'u cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig.

**Cwestiwn 8: Beth yw barn Llywodraeth Cymru am yr amserlenni ar gyfer adolygu'r rhestr yn yr Atodlen a gosod unrhyw reoliadau angenrheidiol gerbron y Senedd iddi graffu arnynt a'u cymeradwyo cyn y dyddiad dod i ben, sef 31 Hydref 2023?**

Cafodd Llywodraeth Cymru gyfle i weld y rhestr lawn o'r offerynnau yn yr Atodlen ar yr un pryd â'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, ac felly rydym wrthi'n gweithio drwy'r manylion o hyd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r Senedd, yn arbennig mewn perthynas ag unrhyw fwriad i wneud rheoliadau i Gymru. Wrth i'r gwaith hwn ddatblygu, byddwn yn rhannu'r cynlluniau hyn ac yn rhoi gwybod i'r Senedd.

**Cwestiwn 9: Sut a phryd y byddai Llywodraeth Cymru yn mynd ati i ddefnyddio’r pŵer hwn?**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r Senedd, yn arbennig mewn perthynas ag unrhyw fwriad i wneud rheoliadau i Gymru. Wrth i'r gwaith hwn ddatblygu, byddwn yn rhannu'r cynlluniau hyn ac yn rhoi gwybod i'r Senedd.

**Cwestiwn 10: I ba raddau y bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cydweithio i nodi cyfraith yr UE a ddargedwir a’i heithrio o’r rhestr yn yr Atodlen? Sut y bydd anghytundebau, os byddant yn codi, yn cael eu datrys?**

Mae timau polisi yn Llywodraeth Cymru wedi bod yn cymryd rhan weithgar mewn trafodaethau ynghylch REUL, gan gynnwys ystyried pa mor addas yw'r ddeddfwriaeth sy'n parhau yn yr Atodlen. Fel y nodwyd uchod, ni rannwyd y rhestr lawn o'r offerynnau yn yr Atodlen cyn iddi gael ei chyhoeddi.

<u>Mae dyddiad machlud hawliau a rhwymedigaethau sy’n uniongyrchol effeithiol (diddymu adran 4 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018) yn aros yr un fath, sef 31 Rhagfyr 2023</u>

**Cwestiwn 11: Ym marn Llywodraeth Cymru, beth yw effaith y machlud hwn o hawliau a rhwymedigaethau sy’n uniongyrchol effeithiol? A fydd yn effeithio ar arfer y pŵer newydd i wneud rheoliadau sydd i’w gynnwys yng nghymal 1(3) newydd, ac ar y pŵer yng nghymalau 13 i 17 i ailddatgan, atgynhyrchu, dirymu, disodli neu ddiweddaru?**

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ei bodloni fod Llywodraeth y DU wedi gwneud digon o waith dadansoddi i ddeall effaith bosibl y darpariaethau hyn a’r effaith sy’n debygol o godi o fachlud hawliau a rhwymedigaethau sy'n uniongyrchol effeithiol. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhannu'r pryderon hyn ar lefel Gweinidogion ac ar lefel swyddogion, ac mae'n parhau i roi rhagor o bwysau ar Lywodraeth y DU i gael gwybodaeth bellach am y mater hwn, ac am sut a phryd y mae'n rhagweld y bydd pwerau yn y Bil yn cael eu defnyddio er mwyn adfer yr egwyddor goruchafiaeth neu unrhyw egwyddorion eraill a ddargedwir.

**Cwestiwn 12: Bydd gwelliant 15 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddatgan yn y Senedd cyn diwedd mis Hydref 2023 unrhyw hawl, pŵer, atebolrwydd, rhwymedigaeth, cyfyngiad, rhwymedi neu weithdrefn a fydd yn dod i ben ddiwedd mis Rhagfyr 2023, ac a fyddai’n rhoi cyfle i’r Senedd i benderfynu ynghylch cadw unrhyw hawliau o'r fath ac ati. Beth yw barn Llywodraeth Cymru am welliant 15 yn cael ei dderbyn?**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r Senedd a bydd yn rhoi gwybod, fel sy'n briodol, am unrhyw fwriad i gyflwyno rheoliadau. Ar hyn o bryd, nid ydym yn bwriadu defnyddio pwerau i ddirymu REUL cyn diwedd mis Rhagfyr 2023. Nid yw pwerau yn y Bil i ailddatgan, atgynhyrchu, dirymu, disodli neu ddiweddaru wedi cael eu newid.

**Cwestiwn 13: Beth yw barn Llywodraeth Cymru am y ffaith nad yw’r pwerau yng nghymalau 13 i 17 o’r Bil i ailddatgan, atgynhyrchu, dirymu, disodli a diweddaru cyfraith yr UE a ddargedwir wedi cael eu newid?**

Fel y nodwyd ym mharagraff 27 o'r LCM atodol, er gwaethaf y gwelliannau, mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau o hyd y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn annerbyniol, gan gynnwys y rhai sy'n dileu'r egwyddorion sefydledig sydd i'w ddefnyddio i ddehongli REUL (‘y darpariaethau dehongli’), a'r rhai sy'n rhoi pwerau cydredol i Weinidogion y Goron mewn meysydd datganoledig heb ofyniad ar wyneb y Bil i sicrhau cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn i'r pwerau hynny gael eu harfer.

**Cwestiwn 14: A yw Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd Llywodraeth y DU yn defnyddio pwerau cymal 15 i ddirymu neu ddiwygio meysydd pellach o gyfraith yr UE a ddargedwir cyn diwedd y flwyddyn hon? Os felly, a yw Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau ar y mater, ac a yw'n gwybod a fyddai rheoliadau o'r fath yn y dyfodol yn debygol o gwmpasu meysydd datganoledig?**

Nid ydym yn gwybod beth y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu ei wneud ar hyn o bryd. Rydym yn parhau i bwyso i gael rhagor o wybodaeth ar lefel Gweinidogion ac ar lefel swyddogion a byddwn yn rhannu unrhyw wybodaeth â'r Senedd.

**Cwestiwn 15: A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio unrhyw bwerau a ddarperir iddi yn y Bil i ddirymu, diwygio, disodli neu ddiweddaru unrhyw gyfraith yr UE a ddargedwir a wnaed gan Senedd neu a ddatganolwyd erbyn diwedd y flwyddyn hon?**

Fel y nodwyd o dan gwestiwn 8, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r Senedd, yn arbennig mewn perthynas ag unrhyw fwriad i wneud rheoliadau i Gymru.

<u>Mae pwerau cydredol yn aros yn y Bil</u>

**Cwestiwn 16: Beth yw safbwynt cyfredol Llywodraeth Cymru ar y defnydd o bwerau cydredol gan Weinidogion y DU ar faterion a ddatganolwyd i Gymru?**

Rwyf eisoes wedi trafod y pwynt ynghylch pwerau cydredol, a gallaf gadarnhau nad yw'r sefyllfa wedi newid. Mae Llywodraeth Cymru wedi argymell i'r Senedd na ddylai gydsynio i'r Bil hwn oherwydd y gallai pwerau yn y Bil arwain at un o Weinidogion y Goron yn deddfu mewn meysydd datganoledig heb gydsyniad Gweinidogion Cymru. Rydym yn gryf yn erbyn hyn, ac yn ei weld yn fater o bwys ac yn enghraifft arall o Lywodraeth y DU yn gwrthod bodloni ei hymrwymiad ei hun i barchu confensiwn Sewel. Rwyf wedi ysgrifennu at y Gwir Anrh. Michael Gove AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a Gweinidog dros Gysylltiadau Rhynglywodraethol, yn pwysleisio'r pryderon hyn.

**Cwestiwn 17: O dan ba amgylchiadau, os o gwbl, y byddai Llywodraeth Cymru yn fodlon i Lywodraeth y DU wneud rheoliadau o dan y Bil mewn meysydd datganoledig?**

Rwyf wedi nodi'n flaenorol y dylai fod gofyniad ar wyneb y Bil i Weinidogion y Goron sicrhau cydsyniad Gweinidogion llywodraethau datganoledig cyn deddfu mewn meysydd datganoledig, er mwyn parchu'r ymrwymiad y mae Llywodraeth y DU wedi ei wneud i gydnabod uniondeb y setliad datganoli a chonfensiwn Sewel.

<u>Gwelliannau i gymalau 20 a 23 - bydd pwerau canlyniadol, trosiannol, atodol etc yn cael eu rhoi i Weinidogion Cymru</u>

**Cwestiwn 18: A wnaeth Llywodraeth y DU ymgynghori â Llywodraeth Cymru cyn rhoi'r pwerau hyn i Weinidogion Cymru?**

Nid ymgynghorwyd Llywodraeth y DU â Llywodraeth Cymru ar fanylion y gwelliannau hyn, er ein bod wedi bod yn gofyn am welliannau a fyddai'n rhoi'r pwerau hyn i Weinidogion llywodraethau datganoledig.

**Cwestiwn 19: Mae'r pŵer yng nghymal 20 yn cynnwys y pŵer datganedig i ddiwygio'r Bil ei hun. A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r pŵer hwn?**

Fel y nodwyd o dan gwestiwn 8, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r Senedd, yn arbennig mewn perthynas ag unrhyw fwriad i wneud rheoliadau i Gymru. Ar hyn o bryd, ni fwriedir arfer y pwerau hyn.

<u>Materion cyffredinol</u>

**Cwestiwn 20: Beth yw barn gyffredinol Llywodraeth Cymru am y Bil fel y'i diwygiwyd yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi?**

Mae'r LCM atodol a osodwyd ar 26 Mai yn amlinellu barn gyffredinol Llywodraeth Cymru ar y Bil hwn.

**Cwestiwn 21: Beth yw strategaeth ddiwygiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer ymdrin â'r Bil yng ngoleuni gwelliannau i'r Bil a dderbyniwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi?**

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n gyflym i ystyried y gwelliannau ac i ddeall eu goblygiadau'n glir. Fel y nodwyd uchod (C8), mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r Senedd. Gweithio i amddiffyn y setliad datganoli fu ein strategaeth gyffredinol ar gyfer y Bil.

Papur polisi Adran Busnes a Masnach Llywodraeth y DU, 'Smarter Regulation to Grow the Economy

**Cwestiwn 22: A wnaeth Llywodraeth y DU ymgynghori â Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu ei phapur polisi: 'Smarter Regulationto Grow the Economy'?**

Nid ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru.

**Cwestiwn 23: Beth yw barn Llywodraeth Cymru am y cynigion sydd yn y papur?**

Bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried y cynigion a amlinellwyd yn y Papur Gwyn yn fwy manwl cyn y bydd modd inni lunio barn gynhwysfawr ar beth sydd ynddynt ac asesu unrhyw oblygiadau i Gymru, gan gynnwys pa ddeddfwriaeth y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu ei chyflwyno a phryd. Ni allwn gefnogi agenda a fyddai'n golygu bod y safonau uchel a'r mesurau diogelu ynghylch yr amgylchedd, iechyd a chyflogaeth yn cael herydu neu eu diraddio.

**Cwestiwn 24: Beth yw barn Llywodraeth Cymru am y meini prawf newydd a nodir yn y papur ar gyfer diwygio neu ddileu deddfwriaeth nad yw bellach yn addas i'r diben?**

Wrth i'r fenter bolisi hon ddatblygu, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi pwysau ar Lywodraeth y DU i gael rhagor o wybodaeth am beth y mae'n ei olygu yn ymarferol, gan gynnwys pa ddeddfwriaeth y mae'n bwriadu ei chyflwyno, a phryd, fel y bydd modd inni asesu goblygiadau hyn i Gymru.

**Cwestiwn 25: Beth yw barn Llywodraeth Cymru am ychwanegu adolygu rheoleiddio domestig yn ogystal â rheoliadau a ddeilliodd o'r UE.**

Fe y nodwyd uchod, ni allwn lunio barn gynhwysfawr tan ein bod wedi ystyried effaith a manylion llawn cynigion Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, rydym yn aros am yr ymateb i'r ymarfer ymgynghori ac, wrth i'r fenter bolisi hon fynd yn ei blaen, byddwn yn rhoi pwysau ar Lywodraeth y DU i gael gwybodaeth wrth iddi ddechrau datblygu polisïau newydd, fel y bydd modd inni asesu'r goblygiadau i Gymru.